Cyfoeth Naturiol Cymru
Natural Resources Wales

Cynllun gweithgaredd

# Peryglon llifddwr

| | |
|---|---|
| **Amser a awgrymir ar gyfer y gweithgaredd** | **25 munud** |
| **Lleoliad** | **Unrhyw leoliad** |

## Cyd-destun

Mae'r gweithgaredd hwn yn canolbwyntio ar y peryglon sy'n llechu mewn dŵr llifogydd a'r risgiau a ddaw yn eu sgil.

Diben Cyfoeth Naturiol Cymru yw ceisio rheoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy yn ei holl waith. Mae hyn yn golygu gofalu am yr aer, y tir, dŵr, bywyd gwyllt, planhigion a'r pridd i wella llesiant Cymru a rhoi dyfodol gwell i bawb.

## Cwricwlwm i Gymru

| Y Dyniaethau | Gwyddoniaeth a Thechnoleg | Iechyd a Lles |
|---|---|---|
| • **Yr hyn sy'n bwysig** Mae ein byd naturiol yn amrywiol a deinamig, wedi'i ddylanwadu gan brosesau a gweithredoedd dynol. | • **Yr hyn sy'n bwysig** Mae bod yn chwilfrydig a chwilio am atebion yn hanfodol i ddeall a rhagfynegi ffenomenau. | • **Yr hyn sy'n bwysig** Mae'r ffordd rydym yn prosesu ein profiadau ac yn ymateb iddyn nhw yn effeithio ar ein hiechyd meddwl a'n lles emosiynol. |
| • **Yr hyn sy'n bwysig** Mae digwyddiadau a phrofiadau dynol yn gymhleth a chânt eu hamgyffred, eu dehongli a'u cynrychioli mewn gwahanol ffyrdd. | • **Yr hyn sy'n bwysig** Mae grymoedd ac egni yn gosod sail i ddeall ein bydysawd. | • **Yr hyn sy'n bwysig** Mae'r ffordd rydym yn gwneud penderfyniadau yn effeithio ar ansawdd ein bywydau ni a bywydau eraill. |

## Fframwaith Cymhwysedd Digidol

Mae cwblhau'r gweithgaredd hwn yn rhoi cyfleoedd i gyflawni'r rhannau canlynol o'r Fframwaith Cymhwysedd Digidol.

| Cynhyrchu | Rhyngweithio a chydweithio | Data a meddwl cyfrifiadurol |
|---|---|---|
| • Cyrchu, chwilio a chynllunio cynnwys digidol | • Cyfathrebu | • Llythrennedd gwybodaeth a data |

## Amcanion

**Bydd dysgwyr yn gallu:**

- Egluro pam mae llifddwr yn beryglus a disgrifio rhai o'r 'pethau drwg' sydd i'w cael ynddo.
- Deall na ddylent fynd i mewn i lifddwr, er eu diogelwch eu hunain.

## Offer ac adnoddau a awgrymir

- Nodyn gwybodaeth - Beth sydd mewn llifddyfroedd?
- Cynwysyddion/potiau/cwpanau tryloyw.
- Llwyau te neu lwyau pwdin i gymysgu eu 'llifddwr'.
- Cerrig, concyrs neu ddeunyddiau tebyg i gynrychioli gwrthrychau peryglus neu beryglon cudd.
- Paent o nifer o wahanol liwiau i gynrychioli cemegau neu wastraff amaethyddol.
- Olew llysiau neu olewydd i gynrychioli olew, petrol neu ddiesel.
- Pridd, silt, tywod i gynrychioli deunyddiau sydd wedi'u golchi o gaeau ac arwynebau i'r llifddwr.
- Darnau o ffoil a phapur i gynrychioli gwastraff a sbwriel.
- Ffon fesur (dewisol).

## Gwybodaeth gefndirol

Mae Cyfoeth Naturiol Cymru a sefydliadau eraill yn gweithio gyda phobl a chymunedau sy'n wynebu perygl llifogydd, gan helpu i atal a pharatoi ar gyfer llifogydd a chynnig cymorth i'r rhai sydd wedi'u heffeithio.

Os hoffech chi neu'ch dysgwyr wybod mwy am berygl llifogydd i chi a beth i'w wneud yn achos llifogydd, ewch i'n tudalennau gwe.

## Awgrymiadau i gwblhau'r gweithgaredd hwn

- Eglurwch i'r dysgwyr fod Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC) a sefydliadau eraill yn gyfrifol am sicrhau bod pobl sy'n byw mewn ardaloedd sydd mewn perygl o lifogydd yn ymwybodol o'r peryglon a sut i baratoi am lifogydd.
- Ydy eich dysgwyr yn gallu trafod pa 'bethau drwg' y byddant o bosib yn dod o hyd iddynt mewn llifddwr? Ar ôl pob awgrym unigol, trafodwch y peryglon a allai fod yn gysylltiedig ag e. Beth, yn eu barn nhw, sy'n digwydd i'r gweddillion sydd wedi setlo ar yr wyneb ar ôl i'r llifddwr gilio?
- Pa liw maen nhw'n ei dybio sydd ar lifddwr, a pham? Sut mae'n wahanol i ddŵr glân?
- Gan gyfeirio at ein Nodyn gwybodaeth – Beth sydd mewn llifddyfroedd?, fe allech holi beth mae eich dysgwyr yn ei wybod am beryglon llifddwr. Er enghraifft, gofynnwch iddyn nhw amcangyfrif o ba ddyfnder y gallai dŵr sy'n llifo'n gyflym daro rhywun oddi ar ei draed, a defnyddio ffon fesur i amlygu'r ateb, sef 15cm (6 modfedd).
- Fe allech osod her i'ch dysgwyr greu samplau cynrychioliadol o lifddwr a'r 'pethau drwg' maen nhw newydd eu trafod. Gan weithio mewn grwpiau bach, rhowch ddetholiad o offer ac adnoddau iddynt, fel yr awgrymir uchod. Mewn cynwysyddion gwahanol, ydyn nhw'n gallu ail-greu enghreifftiau cynrychioliadol o wahanol ddeunyddiau gwastraff a llygryddion wedi'u cymysgu â llifddwr?

Er enghraifft:

- Pethau a allai lygru'r amgylchedd, fel olew, petrol neu ddiesel.
- Cemegau niweidiol o ddŵr ffo diwydiannol neu amaethyddol.
- Bacteria o garthion amrwd.
- Llaeth amrwd.

I gael rhagor o wybodaeth a gweithgareddau am lygryddion problemus, efallai yr hoffech edrych ar ein tudalen we 'Ansawdd dŵr a llygredd dŵr – Beth sy'n effeithio ar ein systemau dŵr?'

- Eglurwch, pan fydd llifddwr yn symud o gwmpas, felly hefyd y gwrthrychau a'r cemegau sydd ynddo. Beth sy'n digwydd os bydd eich dysgwyr yn defnyddio llwyau i droi'r 'llifddwr' yn eu cynwysyddion? A oes unrhyw un o'r samplau yn edrych yn fwy peryglus nag unrhyw un o'r lleill?
- Gofynnwch i'ch dysgwyr beth ddylen nhw ei wneud os na allant osgoi cyffwrdd â llifddwr neu wrthrychau sydd wedi'u gorchuddio â llifddwr? Cyngor Iechyd Cyhoeddus Cymru yw gwisgo menig rwber neu olchi dwylo'n drylwyr.
- Efallai yr hoffech drafod gyda'ch dysgwyr sut gallai llifddwr wneud pethau'n anodd iawn i'w gweld os bydd yn mynd i mewn i adeilad. Gallai llif y dŵr llygredig achosi i wrthrychau symud o un lle i'r llall. Gofynnwch iddynt ystyried beth fyddai canlyniadau hyn o bosib? Hyd yn oed os ydynt yn gyfarwydd ag ystafell neu le, mewn achos o lifogydd a ddylent fynd i mewn i ardal sydd o dan ddŵr?
- Gallai eich dysgwyr drafod pa ffactorau allai ddylanwadu ar rym llifddwr. Er enghraifft, lefelau'r glaw, lefelau dŵr daear, ymchwyddiadau'r llanw, draeniau, topograffeg, llystyfiant a datgoedwigo. Pa effaith allai llifogydd ei chael ar lan afon a'r pridd o'i amgylch? Gofynnwch i'ch dysgwyr ymchwilio a allai llifddwr symud gwrthrychau fel mainc mewn parc neu gar. Pa mor bwerus fyddai angen i lif y dŵr fod i gludo amrywiaeth o wahanol eitemau fel pridd glan afon sy'n erydu, brigau, cerrig mawr, coed, meinciau, ceir, a phobl?
- Beth, ym marn eich dysgwyr, yw'r peryglon i bobl ac anifeiliaid pan fydd llifogydd yn digwydd? Ydyn nhw'n meddwl y byddai'n ddiogel teithio mewn car, bws neu drên trwy ddŵr llifogydd? A fydden nhw'n teimlo'n ddiogel ar ffyrdd isel, pontydd, glannau afonydd, neu ar yr arfordir, pan fo'r dŵr yn uchel neu os bydd llifogydd?

  Gall pontydd rwystro llif y dŵr gan achosi i'r dŵr gronni a gorlifo'r ardaloedd cyfagos. Gall llifddwr orlifo dros lannau afonydd neu eu golchi i ffwrdd, gan beryglu bywydau. Gallai tonnau mawr ar yr arfordir fod yn cario malurion mawr neu olchi person allan i'r môr.
- Ydy eich dysgwyr yn gallu dod o hyd i enghreifftiau o lifogydd lleol i'w trafod? Pa effaith gafodd y llifddwr ar yr unigolion a'r ardal yr effeithiwyd arnynt?

## Awgrymiadau ar gyfer cwestiynau allweddol

- A yw'n ddiogel cerdded mewn llifddwr?
- Pa beryglon allai fod?
- A fyddech chi'n gallu gweld eich traed?
- Pa 'bethau drwg' allai fod mewn llifddwr, yn eich barn chi?
- Beth fyddech chi'n ei wneud pe byddech chi'n deffro i weld bod llifddwr wedi dod i mewn i'ch tŷ?
- Sut gallai llifddwr effeithio ar ecosystemau a bywyd gwyllt lleol?

## Awgrymiadau ar gyfer addasu ar gyfer gwahanol anghenion/galluoedd

- Wrth feddwl am beth sydd mewn llifddwr, rhowch fwy o awgrymiadau i arwain y dysgwyr at yr atebion. Cadwch y rhestr yn syml.
- Fe allech ofyn i'r dysgwyr edrych ar fapiau perygl llifogydd a nodi gwahanol ardaloedd, er enghraifft ble maen nhw'n byw neu ble mae eu hysgol neu'r lleoliad. Ydyn nhw mewn, neu'n agos at, ardal ble mae perygl llifogydd? Ble mae'r ardal agosaf o berygl llifogydd? Pa nodweddion (amgylcheddol, treftadaeth, dinesig) a allai fod mewn perygl o lifogydd? Ydyn nhw'n gallu ysgrifennu cyfeirnodau grid ar gyfer pob ardal?
- Ceisiwch eu cymell i gynnig rhagor o wybodaeth am y sylweddau sy'n bresennol mewn llifddwr a'r peryglon a allai fod o'u herwydd. Gallai hyn gynnwys trafodaeth fanylach ynghylch o ble mae'r llygryddion wedi dod a pham maen nhw'n fwy tebygol o fod yn bresennol yn y dŵr o achos llifogydd.

## Awgrymiadau ar gyfer gweithgaredd dilynol/estyniad

Rhowch gynnig ar y canlynol:

- Cynllun gweithgaredd - Sut i baratoi ar gyfer llifogydd
- Cynllun gweithgaredd - Ysgrifennu cynllun llifogydd
- Cynllun gweithgaredd - Effeithiau llifogydd
- Cynllun gweithgaredd - Ymchwilio i effeithiau emosiynol a seicolegol llifogydd
- Gallai eich dysgwyr ddatblygu a chreu cyflwyniad ar beryglon llifddwr i amlygu'r ystyriaethau a'r effeithiau, gan esbonio i eraill yn eich lleoliad neu'r gymuned leol sut i gadw eu hunain ac eraill yn ddiogel a'u hannog i ddatblygu eu cynllun eu hunain i ddianc rhag llifogydd.

**Dysgu yn yr amgylchedd naturiol, dysgu amdano a dysgu ar ei gyfer.**

**Chwilio am fwy o adnoddau dysgu, gwybodaeth a data?**

Ewch i: **https://cyfoethnaturiol.cymru/dysgu**

Fformat gwahanol: print bras neu iaith arall, cysylltwch â:
**ymholiadau@cyfoethnaturiolcymru.gov.uk**

**0300 065 3000**

Noddir gan Lywodraeth Cymru
Sponsored by Welsh Government